

CYFANSODDIAD A CHYLCH GORCHWYL Y BARTNERIAETH RHEOLI CYRCHFAN

1. Enw'r Bartneriaeth

1.1 Enw'r bartneriaeth fydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy.

2. Y Genhadaeth

2.1 Cenhadaeth Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yw:

“Cynorthwyo Rheoli Cyrchfan Conwy i gyrraedd y nod o ddarparu cyrchfan sy'n gwella'n barhaus.”

3. Yr Amcanion

3.1. Bydd holl weithgareddau a phenderfyniadau'r Grŵp Llywio yn cyfrannu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) at gyrraedd y nodau a chyflawni'r amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan Conwy.

3.2. Bydd yr holl weithgareddau yn cael eu cynnal mewn modd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb mynediad a chyfle cyfartal er budd trigolion y sir. Byddant hefyd yn rhoi sylw i'r Gymraeg, y diwylliant lleol a'r amgylchedd naturiol gan sicrhau y cyflwynir ymdeimlad o le.

3.3. Os ydym yn mynd i gyflawni'r genhadaeth a chymryd y camau gweithredu angenrheidiol, yna mae'n rhaid i bob partner gefnogi ymrwymïadau penodol. Dylid dyrannu rolau a chyfrifoldebau i sefydliadau partner allweddol i sicrhau bod mentrau penodol a chamau gweithredu yn cael eu gwireddu.

4. Gweithgarwch

4.1. Bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn:-

- i) Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Dogfen Gweledigaeth Cyrchfan.
- ii) Cefnogi'r cynllun gweithredu i ddatblygu ei syniadau yn Sir Conwy.
- iii) Llunio cynllun gweithredu ar gyfer:
 - a. Ymgymryd â gweithgareddau er mwyn datblygu cynnyrch, llunio deunyddiau hyrwyddo a gwella sgiliau pobl.
 - b. Datblygu'r defnydd o TGCh ar draws y sector twristiaeth.
 - c. Annog pobl i gymryd rhan mewn rhaglenni gofal cwsmer.
 - d. Cysylltu â sefydliadau masnach lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol.
 - e. Monitro ac adolygu'r cynnydd yn erbyn y targedau.
 - f. Gosod a diwygio targedau.
 - g. Cydlynu adnoddau.
- iv) Cynnal Fforwm Twristiaeth blynyddol i adrodd ar y llwyddiannau.
 - a. Bydd y fforwm twristiaeth yn gyfarfod cynhwysol a fydd yn cynnwys busnesau twristiaeth, cymdeithasau twristiaeth, partneriaid sector cyhoeddus a busnesau perthnasol eraill.

5. Strwythur a'r berthynas â phartneriaethau lleol eraill

5.1. Bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn gorff anffurfiol gyda chyfansoddiad.

5.2. Bydd aelodau Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn cael eu hethol bob tair blynedd.

- 5.3. Bydd yr aelodau yn cael eu hethol am gyfnod o dair blynedd.
- 5.4. Bydd y broses ethol yn dryloyw ac yn ddigon teg a chadarn i wrthsefyll craffu allanol.
- 5.5. Er mwyn cyflawni ei amcanion, bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn gweithio'n agos â phartneriaethau a grwpiau lleol eraill yn ôl yr angen.
- 5.6. Bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn ystyried ac yn cysylltu â gwaith Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Croeso Cymru.
- 5.7. Os oes sedd wag ar y grŵp ar gyfer cynrychiolydd sefydliad rhanbarthol neu genedlaethol, bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn ethol neu'n enwebu cynrychiolydd dros dro tan ddiwedd eu cyfnod yn y sefydliad dan sylw neu ar Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy, pa un bynnag fydd gyntaf.

6. Cyfansoddiad

- 6.1. Mae'r sector twristiaeth yw allweddol i'r economi leol ac o'r herwydd mae ganddo ddylanwad mawr ar nifer o wahanol bobl. Felly mae'n rhaid i Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy gynnwys yr holl bobl yma, sy'n cynnwys:
 - 6.1.1. Busnesau twristiaeth.
 - 6.1.2. Busnesau eraill sy'n dibynnu neu'n cael eu heffeithio gan y sector twristiaeth.
 - 6.1.3. Cymorth i fusnesau a sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n cynorthwyo'r sector twristiaeth.
 - 6.1.4. Ardaloedd y mae eu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael ei effeithio gan y sector twristiaeth.
- 6.2. Bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn cynnwys y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

7. Cyllid

Bydd busnes Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

- 7.1. Cyllid uniongyrchol partneriaid ar gyfer prosiectau unigol.
- 7.2. Ceisiadau gan y bartneriaeth ar gyfer cyllid craidd a/neu gyllid prosiect.

8. Cynnal Busnes

Bydd y bartneriaeth a'i is-grwpiau yn gweithredu ar sail consensws. Pan fo anghytundeb bydd y Cadeirydd, gan ddefnyddio pob sianel briodol, yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb sy'n codi o fewn y bartneriaeth.

9. Cyfarfodydd

- 9.1. Bydd Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn penderfynu ar batrwm ei gyfarfodydd i sicrhau y cynhelir busnes y bartneriaeth mewn modd priodol ac amserol. Disgwylir i'r bartneriaeth gyfarfod oddeutu pob chwarter. Er hwylustod yr aelodau, bydd y bartneriaeth yn cytuno ar raglen gwaith i'r dyfodol sy'n cynnwys dyddiad, amser a lleoliad cyfarfodydd, fel rheol chwe mis ymlaen llaw. Bydd y cyfarfodydd fel rheol yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd.
- 9.3. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn llunio rhaglen, a fydd yn cael ei chylchredeg deg diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol hefyd ynghlwm wrth y rhaglen
- 9.4. Bydd papurau ychwanegol hefyd yn cael ei anfon gyda'r rhaglen a'r cofnodion yn ôl yr angen.

- 9.5. Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw, drwy gyfathrebu ac ymgynghori ymlaen llaw, gan gynnwys cyhoeddi gwaith y bartneriaeth a dosbarthu gwybodaeth i'r gymuned ehangach.
- 9.6. Os bydd aelod yn methu tri chyfarfod yn olynol heb reswm da, e.e. salwch neu reswm tebyg, yna bydd yn colli ei sedd ar y grŵp llywio heb rybudd pellach a bydd aelod newydd yn cael ei benodi.
- 9.7. Os bydd unrhyw aelod o'r Grŵp Llywio, sy'n cynrychioli sefydliad neu'n aelod annibynnol, yn dymuno ymddiswyddo o'r Grŵp Llywio yna bydd yn rhaid iddo gyflwyno ei ymddiswyddiad yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd. Er y gall yr aelod sy'n ymddiswyddo argymhell rhywun yn ei le, mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Grŵp Llywio ymlaen llaw cyn y gellir caniatáu i'r person hwnnw fynychu cyfarfodydd.
- 9.8. Mae'n rhaid i aelodau sy'n cynrychioli sefydliad penodol gael cymeradwyaeth barhaus i wneud hynny gan eu sefydliad. Petai'r gymeradwyaeth hon yn cael ei thynnu'n ôl am unrhyw reswm yna byddai'n rhaid i'r sefydliad hysbysu'r Cadeirydd yn ysgrifenedig a chyflwyno enw eu cynrychiolydd newydd ar gyfer cymeradwyaeth y Grŵp Llywio.